# Toiledau RADAR

Mae RADAR (*Royal Association for Disability and Rehabilitation*) yn gweithredu Cynllun Allwedd Cenedlaethol (NKS) i doiledau anabl y mae'n rhaid eu cloi i atal difrod a chamddefnydd. Mae allwedd RADAR yn allwedd 'pob clo' sy'n agor dros 10,000 o doiledau i'r anabl yn y DU.

Mae toiledau gyda chloeon RADAR neu NKS i'w cael mewn canolfannau siopa, tafarndai, caffis, siopau adrannol, gorsafoedd bysiau a threnau a llawer o leoliadau eraill ymhob cwr o'r wlad.

Mae Cynllun Allwedd RADAR yn golygu y gellir cloi'r toiledau i'r anabl er mwyn atal fandaliaeth a chamddefnydd, felly gall cwsmeriaid fod yn hyderus y bydd y toiledau hyn ar gael i ddiwallu eu hanghenion.

**Yn Nhorfaen gellir prynu allweddi RADAR o'r mannau canlynol:**

**Age Connects Torfaen**, East Avenue, Tref Gruffydd, Pont-y-pŵl NP4 5AB.
Ffôn: 01495 769264

**Argos**, 2-4 Monmouth Walk, Cwmbrân NP44 1PE. Ffôn: 0345 165 7121

**Argos**, 16 Crane Street, Pont-y-pŵl NP4 6LY. Ffôn: 0345 165 7798

**Bush Healthcare**, 33 Sgwâr Gwent, Cwmbrân NP44 1PQ. Ffôn: 01633 864713

**Haven Mobility**, Uned 14, Stad Ddiwydiannol Avondale, Cwmbrân NP44 1UG Ffôn: 01633 861717

**Cludiant Cymunedol Torfaen/Shopmobility**, 32 Sgwâr Gwent, Cwmbrân NP44 1PL. Ffôn: 01633 874686

Efallai y gofynnir i chi ddangos dogfennau sy'n darparu tystiolaeth o anabledd. Fel rheol, gall gofalwyr neu aelodau o'r teulu brynu allweddi i rywun ag anabledd, er, rydym yn argymell eich bod yn cysylltu â gwerthwyr allweddi yn uniongyrchol i ddarganfod beth yw eu polisi gwerthu cyn gwneud taith arbennig.

Mae sawl ffynhonnell ar-lein os hoffech chi chwilio am 'brynu allwedd radar '.

Mae'r costau'n amrywio'n fawr ymhob man, o £1.80 i £10 neu fwy, yn dibynnu ar y metel a ddefnyddir a'r arddull. Mae un allwedd yn ffitio pob toiled RADAR sy'n rhan o'r cynllun ar draws y DU.

Gellir cael mwy o wybodaeth ar brynu Allwedd Radar ar y gwefannau canlynol:
https://www.radarkeys.org/prices.php

https://www.bluebadgecompany.co.uk/blog/radar-keys-locked-disabled-toilets-explained/